Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 30/09/2020 |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymateb Estyn: Ymgorffori dull ysgol gyfan o ran iechyd meddwl a llesiant** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Rydym yn cytuno bod yr arweiniad hwn yn debygol o hyrwyddo dulliau ysgol gyfan mwy cyson, gan gefnogi llesiant ac iechyd meddwl cadarnhaol dysgwyr a staff. Mae'n amlinellu'n glir y rhesymeg a'r cefndir i'r arweiniad hwn. Hefyd, mae'n esbonio camau gweithredu a gofynion allweddol yr holl randdeiliaid trwy arweiniad statudol a chyngor anstatudol.

Mae'r arweiniad yn cyfeirio bron yn unig at 'ysgolion' gydag ychydig iawn o gyfeiriadau at unedau cyfeirio disgyblion, neu blant a phobl ifanc mewn addysg heblaw yn yr ysgol. Rydym ni o'r farn, o ystyried ei bod yn debygol y gallai llawer o ddisgyblion yn y darpariaethau hyn ddioddef o iechyd meddwl gwael, y dylai'r arweiniad gyfeirio at y darpariaethau hyn yn eglur.

Mae Estyn yn credu mai ysgogiad allweddol ar gyfer llwyddiant yr arweiniad hwn fydd y gronfa arfaethedig o adnoddau ac ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac adnoddau datblygiad proffesiynol staff y bwriedir iddynt ategu'r arweiniad hwn. Byddai'n fuddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r dogfennau hyn, ynghyd â'r 'pecyn cymorth' arfer dda, ar yr un pryd â'r arweiniad.

Mae Iach a Hapus[i] (Estyn, 2019) yn nodi mai "ychydig athrawon sy'n ymuno â'r proffesiwn gyda hyfforddiant cefndir sylweddol ym maes datblygiad plant neu'r glasoed, neu'r ffordd orau o gefnogi iechyd a llesiant plant". Mae hyn yn pwysleisio'r angen am hyfforddiant ar gyfer yr holl staff mewn ysgolion i gefnogi iechyd a llesiant plant a phobl ifanc, gan gynnwys hyfforddiant arbenigol ar gyfer materion penodol. Hefyd, dylai hyfforddiant gwmpasu ffyrdd o gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol disgyblion trwy ddysgu cyfunol.

Mae'r arweiniad yn rhoi cyfarwyddyd i hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion (ac UCDau) a phartneriaid allweddol, a dylid gwneud rolau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn eglur yn hyn o beth. Byddent mewn sefyllfa ddelfrydol i hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion sy'n wynebu heriau tebyg, neu gysylltu ysgolion gyda'i gilydd ar sail arfer dda lwyddiannus mewn rhai meysydd.

Dylai'r arweiniad fod yn fwy penodol am bwysigrwydd trefnu bod darpariaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'i bod yn hygyrch.

Mae amgyffrediad gan ysgolion ynghylch asiantaethau cymorth nad oes digon o staff, fod adnoddau dan bwysau, amseroedd aros yn hir, a throsiant staff yn rhwystro parhad mewn darpariaeth. Dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod gan wasanaethau cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ddigon o gapasiti i ddiwallu eu hanghenion iechyd meddwl a llesiant.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd yr arweiniad yn hyrwyddo dulliau ysgol gyfan cyson, gan gefnogi llesiant emosiynol ac iechyd meddwl cadarnhaol pob un o'r dysgwyr a'r staff?

| Cytuno'n gryf | ✓ | Cytuno ychydig | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno ychydig | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Os gwnaethoch chi ddewis 'Anghytuno ychydig' neu 'Anghytuno'n gryf', dylech ymhelaethu ar ba ddiwygiadau pellach sydd eu hangen, yn eich barn chi.

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cytuno bod yr arweiniad yn ei gwneud yn glir fod angen dulliau ysgol gyfan cyson ar gyfer cefnogi llesiant emosiynol ac iechyd meddwl cadarnhaol yr holl ddysgwyr a staff.  Mae hyn yn cefnogi prif ganfyddiadau Iach a Hapus (Estyn, 2019) a Gwydnwch Dysgwyr[ii] (Estyn, 2020) sy'n nodi bod ysgolion da yn deall mai cyfrifoldeb yr holl staff yw llesiant emosiynol disgyblion, a bod pob math o ryngweithio ac ymgysylltu â disgyblion yn effeithio ar eu hymdeimlad o werth.

Caiff pwysigrwydd llesiant staff ei ailadrodd yn y Gwerthusiad o Raglen Beilot Mewngymorth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS): Adroddiad Interim[iii] (Llywodraeth Cymru, 2020), lle nodwyd lefelau uchel o straen ymhlith staff ysgol cyn y rhaglen beilot.  Mae'r adroddiad yn nodi bod "tystiolaeth fod lefelau uchel o straen ymhlith staff a lefelau isel o lesiant staff yn tanseilio ymdrechion ysgolion i hyrwyddo llesiant disgyblion".

Yn yr arweiniad, mae disgwyliad clir ar benaethiaid ac Uwch Dimau Arweinyddiaeth i gael trefniadau gwerthuso effeithiol ar waith i nodi eu cryfderau a'u blaenoriaethau ar gyfer gwella.  Disgwylir iddynt ddefnyddio dull cyfannol i sicrhau bod gofynion llesiant yr holl ddysgwyr a staff yn cael eu diwallu.  Gallai'r disgwyliad y dylid penodi unigolyn arweiniol i arwain gweithredu'r arweiniad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid helpu hyrwyddo dull ysgol gyfan.

Mae baich amlwg ar bob un o'r staff, yr arweinwyr a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys dysgwyr, i sicrhau eu bod yn deall yr arweiniad, ac yn ymateb iddo.  Fel y dywedwyd yn Gwydnwch Dysgwyr (Estyn, 2020), "Mewn ysgolion sy'n llwyddiannus yn meithrin gwydnwch disgyblion, ceir arweinwyr sydd wedi datblygu gweledigaeth gref, wedi'i chefnogi gan werthoedd craidd ynglŷn â hyrwyddo llesiant yr holl ddisgyblion. Rhennir y weledigaeth gan holl randdeiliaid yr ysgolion".

**Cwestiwn 2** – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr arweiniad yn darparu'r lefel gywir o gymorth ar gyfer staff ysgol ac uwch dimau arweinyddiaeth i ddatblygu ac ymgorffori arfer orau ar gyfer cyflwyno dull ysgol gyfan o ran llesiant emosiynol ac iechyd meddwl?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno ychydig | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno ychydig | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Os gwnaethoch chi ddewis 'Anghytuno ychydig' neu 'Anghytuno'n gryf', dylech ymhelaethu ar ba ddiwygiadau pellach sydd eu hangen, yn eich barn chi.

**Sylwadau ategol**

Mae'r arweiniad yn pwysleisio'r cyfrifoldeb i bob aelod o staff ysgol ddefnyddio dull ysgol gyfan o hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant emosiynol da. Mae hefyd yn glir fod yn rhaid addasu'r arweiniad yn unol ag amgylchiadau ysgolion unigol. Mae'n cysylltu'r arweiniad hwn yn glir â'r maes dysgu a phrofiad Iechyd a Llesiant.

Mae hefyd yn amlygu cyfrifoldeb yr uwch dîm arweinyddiaeth i ddefnyddio'r arweiniad i nodi meysydd i'w gwella, a mabwysiadu'r dull cywir, gan ddisgwyl cynnal adolygiad o anghenion llesiant emosiynol, a rhoi cynllun ar waith.

Mae'r arweiniad yn gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gefnogi ysgolion i roi'r dull a'r system ysgol gyfan ar waith. Mae'r arweiniad hefyd yn cyfeirio at offer a fydd yn helpu ysgolion i ddatblygu ac ymgorffori dull ysgol gyfan, fel yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol a chronfa adnoddau.

Wrth ddatblygu'r gronfa adnoddau, dylid ystyried cyhoeddiadau diweddar gan Estyn sy'n amlygu arfer dda yn y maes hwn. Er y bu cyhoeddiadau diweddar yn edrych ar wahanol agweddau penodol ar iechyd meddwl a llesiant emosiynol, yn Gwydnwch Dysgwyr (Estyn 2020), Adnabod eich plant[iv] (Estyn, 2020), Iach a Hapus (Estyn 2019) a Cymorth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed[v] (Estyn 2020), mae llawer o gyfeiriadau defnyddiol at ddulliau ysgol gyfan.

Mae'r adroddiadau hyn yn amlygu meysydd a allai gefnogi ysgolion i ymgorffori dull ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl a llesiant. Maent yn cefnogi'r negeseuon yn adran 6.10 Hyfforddiant Staff, er enghraifft, trwy bwysleisio bod ansawdd y perthnasoedd rhwng staff a disgyblion ac mewn perthnasoedd cyfoed rhwng disgyblion yn ffactor allweddol o ran a yw disgyblion yn ffynnu yn yr ysgol. Maent yn dangos enghreifftiau o bwysigrwydd canolbwyntio ar lesiant yr holl ddisgyblion, ac o nodi aelodau staff y gall disgyblion droi atynt pan fydd angen. Dangosant bwysigrwydd darparu amgylchedd anogol a chefnogol ar gyfer yr holl ddisgyblion, a manteision gweithio'n agos gyda theuluoedd.

Mae Iach a Hapus (Estyn, 2019) yn nodi mai "ychydig athrawon sy'n ymuno â'r proffesiwn gyda hyfforddiant cefndir sylweddol ym maes datblygiad plant neu'r glasoed, neu'r ffordd orau o gefnogi iechyd a llesiant plant. Dim ond lleiafrif o staff mewn ysgolion sydd o'r farn fod yr hyfforddiant neu'r arweiniad a gawsant ar y cychwyn neu mewn swydd wedi'u helpu i gynorthwyo disgyblion â'u llesiant a'u

hiechyd meddwl”. Mae hyn yn pwysleisio’r angen am hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff yn yr ysgol.

Byddai’n fuddiol i ysgolion pe bai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi’r gronfa o adnoddau ac ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac adnoddau datblygiad proffesiynol staff ar yr un pryd â’r arweiniad. Byddai hefyd yn ddefnyddiol hysbysu penaethiaid, uwch dimau arweinyddiaeth ac ysgolion pryd bydd yr offer newydd hwn ar gael, a natur y dogfennau newydd hyn (hynny yw, p’un a fyddant yn anstatudol neu fel arall).

**Cwestiwn 3** – I ba raddau ydych chi’n cytuno bod yr arweiniad yn darparu cyfeiriad digonol i hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion a phartneriaid allweddol fel cyrff statudol, y trydydd sector a rhieni / gofalwyr?

| **Cytuno’n gryf** | ✓ | **Cytuno ychydig** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ | **Anghytuno ychydig** | ☐ | **Anghytuno’n gryf** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Os gwnaethoch chi ddewis ‘Anghytuno ychydig’ neu ‘Anghytuno’n gryf’, dylech ymhelaethu ar ba ddiwygiadau pellach sydd eu hangen, yn eich barn chi.

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cytuno bod gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol rôl bwysig mewn hyrwyddo cydweithio. Rydym o’r farn fod yr arweiniad yn darparu cyfarwyddyd priodol yn y maes hwn, gan restru ystyriaethau pwysig, gan gynnwys arweiniad, mapio gwasanaethau a darpariaeth sy’n cefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol o fewn ôl-troed awdurdod lleol. Hefyd, mae’n cynnig eglurder ar berthnasoedd a phrotocolau ag asiantaethau eraill, yn enwedig iechyd, gofal cymdeithasol a’r heddlu. Hefyd, mae’r arweiniad yn ei gwneud yn glir beth yw rôl yr awdurdodau lleol a’r consortia rhanbarthol mewn cyd-lunio polisïau, cydlynu gwasanaethau a chyflwyno cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer staff.

Mae’r arweiniad yn esbonio’n glir y disgwyliad fod partneriaid allweddol fel y GIG a’r trydydd sector yn gweithio ar y cyd ac yn agored ag ysgolion.

Mae adroddiad Gwydnwch Dysgwyr (Estyn, 2020) yn nodi’r manteision sy’n cronni pan fydd ysgolion yn rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol ac oedolion perthnasol sy’n ymwneud â disgyblion penodol yn effeithiol, ac mewn modd amserol. Yn yr achosion gorau, mae gan ysgolion brosesau ar gyfer sicrhau bod yr holl oedolion perthnasol yn yr ysgol yn cael eu gwneud yn ymwybodol o unrhyw bryderon yn gyflym ac yn gywir. Mae’r adroddiad yn mynd ymlaen i nodi bod “ysgolion da yn defnyddio arbenigedd asiantaethau allanol perthnasol i ychwanegu at eu gwaith. Gall asiantaethau allanol gynnig medrau a gwybodaeth arbenigol nad ydynt bob amser ar gael mewn ysgolion, a phan fydd y berthynas

rhwng yr holl bartïon yn gryf, maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd er lles y disgyblion, gan gryfhau eu gwydnwch a gwella'u bywydau".

Byddai'n fuddiol pe bai'r arweiniad yn rhoi cyfarwyddyd clir i arweinwyr ysgol ynglŷn â sut gallent hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion. Gallai ysgolion elwa ar system i rannu arferion, profiadau ac adnoddau wrth ymgorffori dull ysgol gyfan o ran iechyd meddwl a llesiant emosiynol. Gallai hyn gael ei hwyluso gan yr awdurdod lleol neu gonsortiwm rhanbarthol, y byddai ganddynt fewnwelediad gwell ar faterion penodol mewn gwahanol ysgolion a fyddai'n elwa ar gydweithio. Gallai fod yn bosibl galw cyfarfodydd ar gyfer yr 'unigolyn a enwir' o bob ysgol i fynychu a rhannu eu teithiau, gan gynnwys heriau a llwyddiannau.

**Cwestiwn 4** – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr arweiniad yn cynnig y cydbwysedd cywir rhwng canolbwyntio ar hyrwyddo a meithrin llesiant emosiynol a mynd i'r afael ag anghenion y rhai sydd angen cymorth targedig ar gyfer eu hiechyd meddwl?

| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno ychydig** | ✓ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ | **Anghytuno ychydig** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Os gwnaethoch chi ddewis 'Anghytuno ychydig' neu 'Anghytuno'n gryf', dylech ymhelaethu ar ba ddiwygiadau pellach sydd eu hangen, yn eich barn chi.

**Sylwadau ategol**

Mae'r arweiniad yn gwneud pwysigrwydd darpariaeth gyffredinol a darpariaeth dargedig yn glir. Mae'n sicrhau cydbwysedd da rhwng esbonio pwysigrwydd dull ysgol gyfan o fynd i'r afael ag iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol yr holl ddisgyblion (gan gysylltu hyn ag ymgorffori hyn yn llwyddiannus â'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant), ac anghenion unigolion, ar wahanol adegau, a gallai fod angen cymorth y tu hwnt i'r hyn a gynigir fel darpariaeth gyffredinol. Cefnogir hyn yn adroddiad Adnabod eich Plant (Estyn, 2020) sy'n datgan, "yn yr achosion gorau, mae ysgolion yn canolbwyntio ar wella llesiant eu holl ddisgyblion. Er bod cymorth ac ymyriadau targedig ac arbenigol i'r rhai sydd eu hangen fwyaf, mae darpariaeth gyffredinol ystyriol hefyd ar gyfer meithrin gwydnwch disgyblion a chryfhau eu deallusrwydd emosiynol".

Mae'r arweiniad yn pwysleisio y dylai Uwch Dimau Arweinyddiaeth sicrhau mai dim ond yr ymyriadau hynny sydd â sylfaen dystiolaeth sefydledig neu dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a ddefnyddir. Amlygir hyn yn Gwydnwch Dysgwyr (Estyn, 2020) sy'n nodi, "…mae ysgolion llwyddiannus yn seilio eu dulliau o feithrin gwydnwch ar ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth. Maent yn rhoi'r dulliau hyn ar waith ac yn monitro eu heffaith dros gyfnod. Wrth i ymarferwyr ddod yn fwy profiadol mewn defnyddio dulliau penodol, maent yn eu haddasu i ymateb i anghenion disgyblion unigol … Mae'r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn myfyrio ar eu harfer ac yn adolygu eu dulliau o fynd i'r afael â llesiant eu disgyblion, a'u helpu i fod yn fwy gwydn".

Byddai'n fuddiol i ysgolion pe bai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r gronfa adnoddau ac ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac adnoddau datblygiad proffesiynol staff ar yr un pryd â'r arweiniad.

**Cwestiwn 5** – Ar ôl cyflwyno dysgu o bell o ganlyniad i Covid-19, esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) i'r arweiniad y gellid eu gwneud i sicrhau ei fod yn cefnogi dull 'dysgu cyfunol' yn llawn, sy'n cyfuno dysgu ystafell ddosbarth o bell a thraddodiadol.

Mae'n bwysig fod yr arweiniad yn ei gwneud yn glir y dylai pob plentyn a pherson ifanc allu manteisio ar ystod o offer a chymorth ar gyfer eu llesiant emosiynol a meddyliol yn yr ysgol, ac yn y cartref, pan fydd angen, hefyd. Gellid cynnwys hyn yn adran 6.5 Dulliau Cyffredinol, er enghraifft. Mae'r arweiniad yn esbonio mai "cael perthnasoedd ymddiriedus â staff ysgol, gallu siarad am faterion, a'r ffordd y caiff llesiant ei addysgu trwy gwricwlwm newydd ysgol fydd y cyfan sydd ei angen mewn llawer o achosion". Dylid egluro y dylai 'gallu siarad am faterion' fod yn bosibl ar gyfer disgyblion hyd yn oed pan fyddan nhw gartref.

Mae'r arweiniad hefyd yn datgan (6.6 Darpariaeth dargedig) "…Ym mhob achos, dylai uwch dimau arweinyddiaeth ysgolion allu manteisio ar ystod o ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth (cyflwynir gan staff yr ysgol neu weithiwr proffesiynol priodol) i gefnogi'r person ifanc. Dylid cynnig a chyflwyno'r ddarpariaeth hon mewn ffordd sy'n dadstigmateiddio cymaint ag y bo modd …" Dylid ei gwneud yn glir y dylid darparu cymorth ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol.

Mae un grŵp penodol o ddysgwyr a allai elwa'n fawr ar ddull dysgu cyfunol. Fel y rhestrir yn 6.7 Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion penodol, gallai'r disgyblion sy'n dod o dan y categori 'absennol yn fynych o'r ysgol a'r rhai sy'n profi unigrwydd ac arwahanrwydd' elwa ar y cymorth priodol pe bai protocolau ar waith i alluogi gweithgareddau cydamserol ar-lein.

Dylai'r gronfa adnoddau ac ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac adnoddau datblygiad proffesiynol staff i ategu'r arweiniad hwn, ynghyd â'r 'pecyn cymorth' arfer dda, gynnwys cyfleoedd ar gyfer cymorth ar-lein a chymorth o bell.

Dylid gofyn i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu cyfunol i ddisgyblion fel darpariaeth gyffredinol a darpariaeth dargedig (i'w chynnwys yn 4.3 Cymorth Lleol a Rhanbarthol).

**Cwestiwn 6** – Ar ôl cyhoeddi'r arweiniad, pa weithgarwch gweithredu (os o gwbl) (e.e. hyfforddiant a/neu godi ymwybyddiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd penodol) ydych chi'n ystyried y byddant yn angenrheidiol?

Mae'n bwysig fod yr arweiniad hwn yn cael ei gyfleu i'r holl gynulleidfa fwriadedig a restrir ar dudalen 6. Dylid ei rannu'n eang gan ddefnyddio sianelau cyfathrebu profedig. Gallai fod yn ddefnyddiol creu adnoddau fel posteri yn crynhoi'r cynnwys

y gellid eu hanfon i'r holl ysgolion ac UCDau i'w harddangos mewn ardaloedd cymunol staff.

Dylid darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff ysgol pan gaiff y gronfa adnoddau a'r ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac adnoddau datblygiad proffesiynol staff i ategu'r arweiniad hwn eu creu. Dylid darparu hyfforddiant ar gyfer staff ysgol hefyd i ddatblygu eu cynllunio a chyflwyno dysgu cyfunol. Gallai'r dull dysgu cyfunol olygu y bydd y ffocws ar gyfer dysgu proffesiynol yn newid, er enghraifft blaenoriaethu datblygu medrau digidol ar gyfer paratoi dysgu o bell. Yn ychwanegol, dylid darparu hyfforddiant ar gyfer cyrff llywodraethol (fel y cynigir yn yr arweiniad).

**Cwestiwn 7** – A yw ein cynigion ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd yn ddigon i sicrhau bod yr arweiniad yn cael ei ymgorffori'n ymarferol? Yn benodol, a yw Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol yn y sefyllfa orau i ddwyn yr holl randdeiliaid i gyfrif?

Mae'r arweiniad yn ei gwneud yn glir fod perchnogaeth dros y cynllun i ymgorffori dull ysgol gyfan o ran iechyd meddwl a llesiant emosiynol yn cael ei derbyn gan yr Uwch Dimau Arweinyddiaeth a'r corff llywodraethol.

Mae'r arweiniad yn amlinellu manteision cydweithio ar draws sectorau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, er nad oes rhwymedigaeth statudol i wneud hynny. Mae'n rhesymol disgwyl bod cynnydd yn unol â rhoi'r arweiniad hwn ar waith yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd trwy drefniadau'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol / Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd angen briffio aelodau etholedig yn drylwyr ar yr arweiniad gan swyddogion perthnasol er mwyn darparu craffu gwybodus ar effeithiolrwydd yr holl bartneriaid ac i ddwyn rhanddeiliaid i gyfrif yn briodol.

**Cwestiwn 8** – Hoffem wybod eich safbwyntiau ar yr effeithiau y byddai'r arweiniad yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Nid yw'r arweiniad yn hyrwyddo'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gwaith bob dydd yn ddigon da.  Mae diffyg darpariaeth trwy'r Gymraeg yn y maes hwn, ac nid yw'r arweiniad hwn yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Daw heriau yn sgil pwysigrwydd caniatáu i ddisgyblion drafod unrhyw bryderon ag asiantaethau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg.  I liniaru'r risg nad oes digon o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd ac asiantaethau cymorth â llesiant, byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo manteision annog a datblygu gweithlu dwyieithog i adleisio nodau'r maes dysgu a phrofiad ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn y Cwricwlwm i Gymru.  Byddai'n ddefnyddiol pe bai yna ymdrech, er enghraifft, i hyrwyddo dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, cyfleoedd sabothol, a chymorth i greu rhwydwaith o bobl i allu sgwrsio yn Gymraeg i liniaru problemau iechyd meddwl.

Mae cyngor ar yrfaoedd yn hanfodol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyd-destunau cyfrwng Cymraeg er mwyn cydnabod medrau dwyieithog a medrau cyflogadwyedd pobl ifanc, sy'n cysylltu â'u llesiant a'u hunan-gred.

Ehangwyd y cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg trwy'r Rhaglen Cymraeg Gwaith yn ystod 2018-19, gyda'r rhaglen yn darparu hyfforddiant ar gyfer dros 2,500 o weithwyr mewn amrywiaeth eang o weithleoedd, gan gynnwys iechyd a gofal plant[vi].  Byddai'n fuddiol ehangu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ymhellach.  Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu ar draws pob sector (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr[vii]), mae'n angenrheidiol sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael hyfforddiant a chymorth yn y gweithle.

**Cwestiwn 9** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid yr arweiniad, er mwyn cael:

i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Dylai'r arweiniad fod yn fwy penodol ynglŷn â sicrhau cyfleoedd i fanteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.  Dylai wneud yn glir bwysigrwydd y Gymraeg i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan gynnig cyfle i'r disgyblion hyn drafod a rhannu eu pryderon yn Gymraeg gydag asiantaethau allanol, er enghraifft nyrsys ysgol, seicolegwyr addysg, swyddogion cyswllt yr heddlu ag ysgolion, gweithwyr ieuenctid, cwnselwyr mewn ysgolion, swyddogion cymorth ymddygiad, CAMHS, ac ati.

Dylai'r arweiniad ei gwneud yn glir y dylai darpariaeth fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser, os bydd angen. Byddai darparu gwasanaethau Cymraeg yn cefnogi ac yn annog disgyblion â hunan-barch isel i siarad, rhannu ac ymddiried.

Mae'r ffaith fod rhaglenni TRAC ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael croeso da i annog disgyblion sydd wedi ymddieithrio i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gwaith a gweithgareddau hamdden, awyr agored i sicrhau nad ydynt yn rhai NACH.

Mae adroddiad[viii] ar wefan Comisiynydd y Gymraeg yn amlygu pwysigrwydd y modd y mae cyfathrebu yn Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth mawr i lesiant corfforol a meddyliol cleifion a'u teuluoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Cwestiwn 10** – Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i sôn amdanynt.

Mae'r arweiniad yn rhestru unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a phlant a phobl ifanc mewn addysg heblaw yn yr ysgol yn ei gynulleidfa fwriadedig (tudalen 6), ond eto nid oes cyfeiriad uniongyrchol at UCDau o fewn yr arweiniad. Mae tudalen 7 yn amlinellu o dan ba ddeddfwriaeth y cyhoeddir yr arweiniad. Mae'n cyfeirio at ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles "plant yn yr ysgol neu mewn lle dysgu arall" sy'n cynnwys cefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r arweiniad yn cyfeirio at ysgolion yn unig.

Dylai'r arweiniad gynnwys UCDau a darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn eglur, o ystyried ei bod yn debygol y gallai llawer o ddisgyblion yn y darpariaethau hyn ddioddef o iechyd meddwl gwael.

Mae amgyffrediad ynghylch asiantaethau cymorth nad oes digon o staff, fod adnoddau dan bwysau, amseroedd aros yn hir, a throsiant staff yn rhwystro parhad mewn darpariaeth. Yn ei chrynodeb, mae Gwerthusiad o Raglen Beilot Mewngymorth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS): Adroddiad Interim (Llywodraeth Cymru, 2020) yn datgan "Mae pryderon eang bod iechyd meddwl a llesiant disgyblion yn gwaethygu a bod ysgolion a gwasanaethau fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wedi cael anhawster bodloni gofynion cynyddol ac wedi arwain at amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion". Hefyd, nododd y rhaglen beilot "bod ysgolion, ar y cyfan, cyn y peilot, yn ei chael yn anodd cael gafael ar gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol pan oedd arnynt eu hangen, o ystyried trothwyon uchel a rhestrau aros am wasanaethau arbenigol. Yn gyffredinol, teimlid bod mynediad at gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol wedi dirywio, o ystyried y galw cynyddol am wasanaethau a thoriadau yn y ddarpariaeth". Daw'r adroddiad i'r casgliad fod "recriwtio gweithwyr medrus iawn wedi bod yn allweddol i lwyddiant y rhaglen beilot hyd yma. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd cynnal ansawdd gwaith yn her wrth symud ymlaen oherwydd, wrth i ymgysylltu ag ysgolion gryfhau (sy'n un o lwyddiannau'r rhaglen beilot), mae'r

timau staffio o'r un maint yn cyflwyno i nifer cynyddol o ysgolion, ac yn gweithio gyda'r ysgolion hynny, gan greu perygl o wanhau'r effaith".

Dylid rhoi blaenoriaeth i recriwtio cyflenwad llawn o staff i ddarparu cymorth i ddisgyblion â'u hiechyd a'u llesiant emosiynol.

Mae'r arweiniad yn cyfeirio at safbwyntiau disgyblion yn adran 5.2, ond gellid cryfhau pwysigrwydd gwrando ar ystyried safbwyntiau pob disgybl. Gallai'r arweiniad gyfeirio'n ddefnyddiol at Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc. Mae adroddiad Estyn Iach a Hapus (Estyn, 2019) yn amlygu'r pwysigrwydd y mae staff ac arweinwyr yn ei roi i wrando ar ddisgyblion, nid dim ond cael systemau ar waith ar gyfer cynrychioli disgyblion.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐

---

i https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Healthy%20and%20Happy%20report%20En_0.pdf Accessed on 22/07/20

ii https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Learner%20resilience%20en.pdf Accessed on: 22/07/20

iii https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-07/evaluation-of-the-camhs-in-reach-pilot-programme-interim-report.pdf Accessed on: 12/08/20

iv https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Knowing%20your%20children%20%20supporting%20pupils%20with%20adverse%20childhood%20experiences_0.pdf Accessed on 22/07/20

v https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Effective%20school%20support%20for%20disadvantaged%20and%20vulnerable%20pupils%20en_0.pdf Accessed on 22/07/20

vi https://socialcare.wales/learning-and-development/using-welsh-at-work

vii https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-welsh-language-strategy-action-plan-2018-to-2019.pdf

viii http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/English/News/Pages/The-value-of-the-Welsh-language-through-the-eyes-of-the-cancer-ward-workers.aspx Accessed on: 22/07/20